

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i Bobl Anabl

MEWNOL

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth ¹	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Adnoddau Dynol				
Parhau i recriwtio a dethol yn wrthrychol a monitro amrywiaeth y gweithlu, gan gynnwys anabledd, i lywio polisi a rheoli mewnol.	Gweithredu system fonitro TGCh Adnoddau Dynol newydd. Ail-edrych ar staff i asesu unrhyw newidiadau mewn anghenion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion a nodir. Ychwanegu ffurflen monitro cydraddoldeb i dempled cyfweiliad ymadael sy'n cynnwys cwestiwn am anabledd.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae gan yr Amgueddfa wybodaeth fanwl am gyfansoddiad ei gweithlu.
Gwella'r gwaith o fonitro'r broses addasu rhesymol.	Cynnwys cwestiwn am fonitro addasiadau ar y ffurflen PDR. Cynnwys cwestiwn am anghenion addasu yn y rhestr wirio wrth ymsefydlu ar gyfer rheolwyr llinell a newydd ddyfodiaid.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae gan staff anabl yr addasiadau angenrheidiol i weithio'n effeithiol.
Cynnwys amrywiaeth ym mhroses arfarnu staff a fydd yn cynnwys ymwybyddiaeth o anabledd a chydraddoldeb i bobl anabl mewn swyddi.	Bydd canllawiau ar y broses arfarnu yn cynnwys materion anabledd.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Pob aelod staff yn ymwybodol o ymrwymiad yr Amgueddfa i gydraddoldeb i bobl anabl a'r ffordd y gallan nhw ddatblygu hynny yn eu swyddi.
Cynnal arolwg staff ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a fydd yn cynnwys cwestiynau am gydraddoldeb i bobl anabl.	Cwblhau a dadansoddi'r arolwg staff. Bydd y Grŵp Amrywiaeth Mewnol yn monitro canlyniadau'r arolwg a bydd unrhyw gamau gweithredu dilynol yn cael eu nodi.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Cynnal yr arolwg ac adolygu'r canlyniadau i lywio polisi.

¹ Gweithredir y camau a nodir fel blaenoriaeth Uchel yn 2008/09; gweithredir y rhai a nodir fel blaenoriaeth Ganolig yn ystod 2009/10; a gweithredir camau blaenoriaeth isel yn ystod 2010/11.

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth¹	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Adolygu'r hyfforddiant gorfodol presennol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.	Mae hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cynnwys sesiwn ar y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar gyfer y Sector Cyhoeddus Mae proses ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth cyn pen 6 mis ar ôl ymuno â'r Amgueddfa. Mae pob aelod o staff yn cael hyfforddiant uwch ar gydraddoldeb i bobl anabl.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi ym maes y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar gyfer y sector cyhoeddus Mae staff yn wybodus ynglŷn â materion cydraddoldeb i bobl anabl ac yn gwybod y gallan nhw eu cynnwys yn eu swyddogaethau.
Adolygu rhaglenni hyfforddi ehangach i sicrhau bod cyfleoedd cydraddoldeb i bobl anabl yn cael eu defnyddio i'r eithaf e.e. hyfforddiant ymsefydlu.	Asesu pa mor berthnasol yw'r cyrsiau hyfforddi presennol ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac adolygu cynnwys y rhaglen hyfforddi bresennol. Adolygu contractau hyfforddi presennol i sicrhau eu bod yn cynnwys cymalau ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys cydraddoldeb i bobl anabl). Cynnwys cymalau mewn unrhyw gontractau hyfforddi newydd.	Canolig	Pennaeth Adnoddau Dynol	Cyrsiau hyfforddi yn rhoi sylw manwl i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth gan gynnwys cydraddoldeb i bobl anabl fel bo'n briodol.
Gwella'r cynllun profiad gwaith presennol i gynnwys myfyrwyr anabl ac annog hyn i ddigwydd yn ymarferol ar holl safleoedd yr Amgueddfa. Ystyried sefydlu lleoliadau gwirfoddol yn benodol i bobl ag anableddau.	Cynllun ar waith sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ar draws safleoedd yr Amgueddfa o ddiwrnodau agored i leoliadau 3 mis. Hyrwyddo hyn yn ymarferol i geiswyr gwaith anabl. System fonitro ar waith i fesur effeithiolrwydd ac effaith.	Canolig	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae'r staff yn fwy ymwybodol o faterion anabledd. Pobl anabl yn gwella sgiliau i fod yn economaidd weithgar.
Rhoi system ar waith i fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu staff yn enwedig i fynd i'r afael â materion	Cael gwirfoddolwyr i weithredu fel Cyngorwyr Mynd i'r Afael â Bwlio ac Aflonyddu. Hyrwyddo swyddogaeth Gwirfoddolwyr Mynd i'r Afael â	Canolig	Pennaeth Adnoddau Dynol	Gweithredu fel y brif ddolen gyswllt i gydweithwyr sy'n wynebu neu'n dyst i fwlio neu

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth¹	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
aflonyddu ar sail anabledd	Bwlio ac Aflonyddu i staff Asiantaeth gan gynnwys bwlio ac aflonyddu ar sail anabledd Darparu hyfforddiant cynhwysfawr gan gynnwys bwlio ac aflonyddu ar sail anabledd			aflonyddu, neu yr honnir eu bod wedi bwlio neu aflonyddu. Darparu gwasanaeth cyngori cyfrinachol i'r cydweithwyr hyn. Gwrando a thrafod y materion gyda chydweithwyr. Darparu canllawiau a gwybodaeth. Cynorthwyo i edrych ar opsiynau a gwneud penderfyniadau. Mynd gyda chydweithwyr sy'n rhoi gwybod am achosion neu honiadau o fwlio ac aflonyddu, a darparu cymorth parhaus. Cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o faterion bwlio ac aflonyddu.
Datblygu polisi seibiant ac absenoldeb salwch anabledd cadarn ac eglur.	Adolygiad o'r polisi wedi'i gwblhau, ymgynghoriad wedi'i gynnal a chyhoeddwyd y polisi	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Staff anabl yn parhau i weithio yn yr Amgueddfa
Asesu effaith mentrau teithio Gwyrdd ar staff ac ymgeiswyr anabl am swyddi.	Asesu effaith a gwneud unrhyw addasiadau sydd eu hangen.	Isel	Cyfarwyddwr Gweithredu	Nid yw mentrau teithio Gwyrdd yn cael effaith niweidiol ar staff anabl
Dosbarthu canllawiau / gwybodaeth ar reoli gweithwyr cyflogedig anabl.	Paratoi a rhannu canllawiau	Canolig	Pennaeth Adnoddau Dynol	Rheoli a chadw staff anabl yn effeithiol.
Mabwysiadu 'Tic Dwbl' yn	Wedi derbyn achrediad	Canolig	Pennaeth Adnoddau	Wedi derbyn achrediad sy'n

Gweithgaredd	Carreg Filtir	Blaenoriaeth¹	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Gadarn o Blaid Pobl Anabl			Dynol	dangos delwedd gadarnhaol o'r Amgueddfa fel cyflogwr.
Pob disgrifiad swydd a manyleb person i gynnwys ymrwymiad i gydraddoldeb i bobl anabl.	Parhaus, wrth i Ddisgrifiadau Swydd gael eu diweddarau	Parhaus	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae'r Amgueddfa yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb i bobl anabl.
Pob contract cyflogaeth i gynnwys ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth gan gynnwys cydraddoldeb i bobl anabl.	Parhaus, wrth i gontractau gael eu dyfarnu	Parhaus	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae'r Amgueddfa yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb i bobl anabl.
Pennu targedau ar gyfer canran y staff ag anabledd (wedi'i lywio gan ddadansoddiad o ddemograffeg).	Ymchwil desg i amrywiaeth rhanbarth / dalgylch fesul gradd Pennu targedau ar gyfer staff anabl, ceisiadau am swydd ac ati	Isel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Y sefydliad yn newid i gael gweithlu sy'n adlewyrchu'r dalgylch.
Dylanwadu ar a sicrhau bod unrhyw adolygiad yn y dyfodol o weithio hyblyg a pholisïau oriau gwaith yn ystyried staff anabl (a materion amrywiaeth eraill).	Parhaus	Canolig	Pennaeth Adnoddau Dynol	Polisïau oriau gwaith yn ystyried amrywiaeth staff.
Archwilio'r holiadur meddygol cyn cyflogi i sicrhau ei fod yn ddi-dduedd o safbwynt anabledd.	Gweithio gyda'r darparwr gwasanaeth lechyd Galwedigaethol ynglŷn â'r holiadur meddygol.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Nid yw'r holiadur meddygol yn llesteirio cyflogi pobl anabl.
Ymgynghori â phobl anabl ynglŷn â rhwystrau go iawn neu a ganfyddir i gael gwaith yn yr Amgueddfa.	Ymgynghori â phobl anabl ym mhob cwr o Gymru	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Nodi rhwystrau a diweddarau cynllun gweithredu i gael gwared arnyn nhw.

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth¹	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Datblygu tudalen fanwl ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar fewnwyd a gwefan yr Amgueddfa sy'n rhoi manylion gwybodaeth am anabledd yng Nghymru.	Mewnwyd wedi'i sefydlu Tudalennau'r we wedi'u llunio	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Tudalennau gweithredol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y fewnwyd a'r wefan.
Adolygu a diweddarw'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfredol i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn cyfeirio'n ddigonol at anabledd.	Adolygwyd polisi ac ymgynghorwyd yn ei gylch gyda staff a phobl anabl Cymeradwywyd y Polisi gan y Grŵp Amrywiaeth ac mae ar gael i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r staff	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i adolygu ac yn addas i'r diben.
Grŵp Amrywiaeth yn llywio'r gwaith o weithredu ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a'r Cynllun Gweithredu.	Cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda Phenaethiaid yn adrodd ar gynnydd o'i fesur yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb i Bobl Anabl Bob chwarter, y grŵp yn adrodd i'r Grwpiau Gweithredol ar gynnydd o'i fesur yn erbyn y Cynllun Gweithredu Anabledd Bob blwyddyn, y Grŵp yn goruchwyllo'r gwaith o ddiweddarw'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a'r Cynllun Gweithredu	Parhaus	Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu	Gweithdrefn adrodd ffurfiol fewnol gadarn ar waith ar gyfer cynnydd o'i fesur yn erbyn y Cynllun Gweithredu Anabledd. Diweddarw'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a'r Cynllun Gweithredu bob blwyddyn a'u hadolygu'n llawn ar ôl 3 blynedd.
Hyfforddiant llawn i'r staff perthnasol ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.	Datblygu storfa ganolog o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a thystiolaeth i gynorthwyo asesiadau pellach Sicrhau bod hyrwyddwr anabledd ar y bwrdd arfarnu prosiect er mwyn sicrhau bod pob prosiect a gyflwynir i'w gymeradwyo wedi'i asesu'n ddigonol o ran cydraddoldeb i bobl anabl. Cynnwys anabledd yn y broses fonitro ac	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i ddeall a'i gyflawni yn ystod pob cam priodol

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth¹	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
	adrodd, gan ddefnyddio gwybodaeth wedi'i dadgyfuno sydd o fudd i bawb			
Dadansoddi canlyniadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ôl anabledd bob blwyddyn.	Cwblhau dadansoddiad a nodi unrhyw oblygiadau i bolisi neu gyflawni.	Parhaus	Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu	Cyflawni canlyniadau anabledd cadarnhaol sy'n deillio o'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Magu hyder staff sy'n cynnal yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
Cynllunio corfforaethol a busnes				
Sicrhau bod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi cael sylw digonol yn y Cynllun Corfforaethol	Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb manwl ar y Cynllun Corfforaethol gan ymgynghori â phobl anabl a'u cael i gyfrannu.	Uchel	Pennaeth Polisi a Chynllunio	Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol drafft. Atodiad yn y Cynllun Corfforaethol yn dangos sut y caiff materion a nodwyd yn yr Asesiad o'r drafft sylw.
Sefydlu dull gweithredu ymarferol tuag at gydraddoldeb i bobl anabl yn y broses o Gynllunio Busnes.	Canllawiau Cynllunio Busnes i gynnwys gwybodaeth am yr angen i hyrwyddo'n ymarferol gydraddoldeb i bobl anabl i'r Sector Cyhoeddus. Adolygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn unol â'r cylch Cynllunio Busnes. Adlewyrchu cynnydd ar gydraddoldeb i bobl anabl yn yr Adroddiad Blynnyddol.	Uchel	Pennaeth Polisi a Chynllunio	Cynnwys Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn y broses o Gynllunio Busnes.
Sicrhau bod polisi mewnol yr Amgueddfa yn rhoi ystyriaeth ddyledus i faterion a chyfleoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys Anabledd)	Ystyried Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth ddatblygu polisiâu allweddol	Parhaus	Perchnogion polisi	Yr Amgueddfa'n gallu dangos lle a sut mae'r gwaith o ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth (gan gynnwys anabledd) wedi dylanwadu ar ddatblygu polisi.

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth ¹	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Cyfathrebu a marchnata				
Datblygu a phennu safonau mynediad penodol ar gyfer pobl anabl yn holl ohebiaeth ysgrifenedig yr Amgueddfa (mewnol ac allanol).	Cynnal archwiliad / arolwg rheolaidd gyda'r holl grwpiau rhanddeiliaid i wella ein deunyddiau cyfathrebu. Ymchwil desg i nodi safonau cenedlaethol fel y gellir eu cynnwys yn y canllaw arddull corfforaethol nesaf. Dweud am y canllaw arddull wrth yr holl staff fel eu bod yn ymwybodol ei bod yn bolisi gan yr Amgueddfa i gydymffurfio â'r safonau.	Uchel	Pennaeth Marchnata	Gohebiaeth ysgrifenedig yn cydymffurfio â safonau mynediad i bobl anabl Cenedlaethol.
Adolygu dulliau cysylltu presennol yr Amgueddfa i sicrhau bod dewisiadau hygyrch ar gael.	Gofyn am adborth gan bobl anabl ar y dulliau cysylltu presennol. Hysbysebu amrywiaeth o ddulliau cysylltu'r Amgueddfa ar bob cyhoeddiad ac ar y wefan.	Uchel	Pennaeth Marchnata	Gall mwy o bobl gysylltu â'r Amgueddfa yn hawdd.
Mae'r holl ddigwyddiadau y mae'r Amgueddfa yn eu cynnal yn gwbl hygyrch i bobl anabl.	Datblygu polisi lleoliadau hygyrch. Paratoi rhestr wirio o faterion amrywiaeth i bob aelod o staff sy'n gysylltiedig â threfnu digwyddiadau. Llunio rhestr o leoliadau hygyrch ym mhob cwr o Gymru y gellir eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau. Sicrhau eu bod wedi'u harchwilio gan archwilydd mynediad cofrestredig.	Uchel	Pennaeth Rhaglennu a Chyflwyno/ Cydgysylltwyr Gweithgareddau'r Safleoedd	Mae'r Amgueddfa'n defnyddio lleoliadau sy'n hygyrch i bawb, ac yn hyrwyddo pwysigrwydd cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2004 sy'n ymwneud â sicrhau bod safleoedd cyhoeddus yn hygyrch i bobl anabl.
Adolygu'r deunyddiau cyfathrebu a marchnata i sicrhau delwedd gadarnhaol o bobl anabl.	Adolygu'r deunyddiau a'r delweddau presennol gyda'r bwriad o gynyddu'r stoc o ddelweddau sydd ar gael i'w defnyddio. Cynhyrchu canllawiau ar arferion da gan ddefnyddio delweddau cadarnhaol o bobl anabl.	Uchel	Pennaeth Marchnata	Yr Amgueddfa yn gweithio'n ddiwyd i hyrwyddo delweddau cadarnhaol o bobl anabl.

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth ¹	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Cyllid a Chaffael				
Caffael Uniongyrchol – Polisi caffael a chanllawiau manwl yn mynd i'r afael yn ddigonol â chydraddoldeb i bobl anabl.	Polisi Caffael Cynaliadwy yn cyfeirio at gydraddoldeb i bobl anabl. Canllawiau mewnol manwl yn cynnwys cydraddoldeb i bobl anabl. Canllawiau mewnol wedi'u cynnwys yn y prosesau caffael.	Uchel	Pennaeth Cyllid	Polisi caffael wedi'i ddatblygu. Cydraddoldeb i bobl anabl wedi'i gynnwys yn llawn yn y broses gaffael.
Caffael Uniongyrchol - Datblygu system i fesur amrywiaeth cyflenwyr gan gynnwys cydraddoldeb i bobl anabl	Diweddarau'r cais am wybodaeth gan gyflenwyr newydd i gynnwys manylion cydraddoldeb. Diweddarau'r holiadur presennol i gynnwys amrywiaeth a'i ddosbarthu i gyflenwyr presennol a chadw gwybodaeth ar y system gyfrifyddu.	Canolig	Pennaeth Cyllid	Gweithdrefnau newydd wedi'u gweithredu. Holiadur wedi'i ddatblygu a'i ddosbarthu i gyflenwyr i sefydlu llinell sylfaen o nodweddion cyflenwyr.
Caffael Uniongyrchol - Darparu cefnogaeth i fusnesau a arweinir gan bobl anabl fel y gallant gystadlu am waith sy'n cael ei gaffael, gan gynnwys sut i gyflwyno tendrau, sicrhau contractau a darparu gwasanaethau.	Sefydlu llinell sylfaen o fusnesau a arweinir gan bobl anabl. Cynhyrchu canllaw byr hygyrch yn egluro sut mae gwaith comisiynu a chaffael yr Amgueddfa yn gweithio. Cynnal digwyddiad ar gyfer busnesau sydd â pherchnogion amrywiol, os oes angen.	Canolig	Pennaeth Cyllid	Nifer y busnesau a arweinir gan bobl anabl sy'n rhan o'r broses gaffael uniongyrchol yn cynyddu.
Rheoli safleoedd a chyfleusterau'r Amgueddfa				
Paratoi polisi a llawlyfr cynllunio cynhwysol ar gyfer yr holl safleoedd.	Gweithio gydag amrywiaeth o grwpiau anabl i sicrhau bod y polisi yn ystyried anghenion amrywiaeth eang o bobl anabl.	Canolig	Pennaeth Cynllunio	Contractwyr yn ymwybodol o ac yn cadw at ymrwymiad yr Amgueddfa i gydraddoldeb i bobl anabl a chynllunio cynhwysol.

Adolygu archwiliadau o hygyrchedd a chynnal archwiliadau lle bo angen. Rhoi cynllun hygyrchedd ar waith i ddileu rhwystrau ar sail archwiliad o hygyrchedd.	Cwblhau adolygiad hygyrchedd o bob safle. Paratoi cynllun hygyrchedd ar gyfer pob safle a chyflwyno'r cais am gyllid cysylltiedig i gefnogi'r cynllun. Gweithredu argymhellion y cynllun hygyrchedd yn unol â'r gweithgareddau a'r amserlenni a amlinellir ynddo.	Parhaus	Rheolwyr Safleoedd/Pennaeth Adeiladau	Cynlluniau ar waith i wneud yr holl safleoedd yn hygyrch.
--	---	---------	---------------------------------------	---

Cyhoeddiadau a Dylunio

Adolygu hygyrchedd y Fewnrwyd.	Dosbarthu dyluniadau drafft y Fewnrwyd newydd i'r Grŵp Amrywiaeth i gael cyngor ar sicrhau ansawdd hygyrchedd. Bydd y Fewnrwyd yn bodloni blaenoriaethau un a dau o ganllawiau hygyrchedd cynnwys gwefannau W3C. Bydd y Fewnrwyd yn cydymffurfio â safonau AA.	Uchel	Pennaeth y Cyfryngau Newydd	Y fewnrwyd yn gwbl hygyrch i staff anabl.
Adolygu hygyrchedd gwefan yr Amgueddfa a'r Amgueddfa Rithwir.	Gwefannau'n cydymffurfio â safonau hygyrchedd.	Uchel	Pennaeth y Cyfryngau Newydd	Gwefannau yn gwbl hygyrch.
TGCh				
Sicrhau bod yr holl gyfarpar TGCh a chysylltedd yn hygyrch i bobl anabl.	Sicrhau bod yr addasiadau angenrheidiol i'r cyfarpar TGCh wedi'u darparu ar gyfer yr holl staff anabl a bod cyfarpar TGCh a chysylltedd yn hygyrch neu y gellir eu haddasu i sicrhau hygyrchedd.	Uchel	Pennaeth TGCh	Nid yw staff anabl wedi'u heithrio rhag defnyddio cyfarpar TGCh neu gysylltedd.

Gweinyddu

Sicrhau bod polisi lechyd a Diogelwch yn cynnwys ystyriaeth	Diwygio'r Datganiad Polisi lechyd a Diogelwch.	Uchel	Pennaeth Gweinyddu	Polisi lechyd a Diogelwch yn
---	--	-------	--------------------	------------------------------

o faterion anabledd.	Y Polisi Iechyd a Diogelwch i gael ei ail-ysgrifennu a chynnwys datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth			ystyried pobl anabl.
Cynnwys gweithdrefnau allanfeydd brys yn y llawlyfr ymsefydlu sy'n cynnwys gwybodaeth i staff anabl.	Diwygiadau i'r llawlyfr ymsefydlu i gael eu cwblhau. Adolygu gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â dosbarthu diwygiadau fel bo angen ar gyfer pob swyddfa.	Uchel	Rheolwyr Safleoedd/Pennaeth Gwasanaethau Ymwelwyr	Gweithdrefnau allanfeydd brys yn ystyried staff anabl.
Datblygu polisi cyfarfodydd mewnol mewn perthynas â mynediad i bobl anabl a dweud wrth yr holl staff.	Datblygu polisi mewn cydweithrediad â staff a grwpiau anabl. Dweud wrth yr holl staff am y polisi.	Canolig	Pennaeth Gweinyddu	Yr holl staff yn ymwybodol o'r angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer cyfarfodydd i staff ac ymwelwyr anabl.

ALLANOL

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Arddangosfeydd a Digwyddiadau				
Sicrhau bod materion anabledd wedi'u prif ffrydio yn yr holl gasgliadau, digwyddiadau, arddangosfeydd a rhaglenni	Digwyddiadau, arddangosfeydd a rhaglenni yn cynnwys materion anabledd Polisi amrywiaeth wedi'i gynnwys fel elfen o'r fethodoleg mewn rhaglen fframwaith. Bydd y polisi yn cyfeirio ar gydraddoldeb i bobl anabl Annog amrywiaeth (gan gynnwys cydraddoldeb i bobl anabl) i'w gynnwys yn y cynlluniau darparu blynyddol Rhaglenni allweddol yn datblygu polisiâu amrywiaeth a pherfformiad yn cael ei fonitro bob chwe mis Pob prosiect newydd yn cael ei arfarnu o safbwynt cydraddoldeb cyn ei gymeradwyo a'i adolygu bob blwyddyn ar y dyddiad y penderfynwyd buddsoddi	Uchel	Pennaeth Rhaglennu a Chyflwyno/Rheolwyr Safleoedd/Penaethiaid Adrannau Curadurol	Anabledd i gael ei brif ffrydio i waith yr Amgueddfa Mwy o bobl anabl yn cymryd rhan yn y gwaith o greu arddangosfeydd a rhaglenni Pobl anabl yn cymryd rhan yn gyson mewn digwyddiadau, cystadlaethau ac ati wedi'i fesur trwy ddata cofrestru. Sylw cyson i bobl anabl mewn deunyddiau marchnata ac astudiaethau achos
Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar fusnes bob dydd yr Amgueddfa, arddangosfeydd ac ati	Rhoi contract i ymgynghorydd allanol. Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn ymgynghoriad â phobl anabl.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a nodi bylchau a lliniaru effaith negyddol.
Dysgu				
Sicrhau bod mentrau addysg yr Amgueddfa yn cael eu hyrwyddo'n benodol i fyfyrwyr a staff anabl.	Cynnwys gwybodaeth am hyrwyddo i fyfyrwyr/staff anabl fel rhan o'r archwiliad arferol o fentrau addysgol Sicrhau bod gwefannau yn cydymffurfio (WCAG/AA)	Uchel	Pennaeth Addysg	Myfyrwyr a staff anabl yn cael cymorth i gymryd rhan yn llawn.

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Cynnwys safonau hygrychedd ar gyfer datblygu prosiectau	Mabwysiadu pecyn cymorth cynllunio cynhwysol i bartneriaid.	Canolig	Pennaeth Addysg	Prosiectau'n hyrwyddo Dyletswydd Gyffredinol y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl ar gyfer y sector Cyhoeddus
Datblygu rhaglenni dysgu sy'n gysylltiedig â phrosiectau sy'n adlewyrchu dulliau dysgu amrywiol ac sy'n addas i amrywiaeth o grwpiau defnyddwyr.	Gweithio gyda grwpiau anabl ac ysgolion ac athrawon anghenion arbennig i sicrhau bod rhaglenni Dysgu yn diwallu anghenion dysgwyr anabl.	Parhaus	Pennaeth Addysg	Rhaglenni'r Amgueddfa yn hygyrch i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys y rhai sy'n anabl.
Wrth annog rhagoriaeth a chyfranogi yn y celfyddydau byddwn yn ceisio cynnwys pobl anabl a'u grwpiau cynrychiadol, nodi unrhyw rwystrau i gynhwysiant a chymryd camau i gael gwared arnynt	Ymgynghori â phobl anabl a'u grwpiau cynrychiadol Nodi'r rhwystrau a chymryd camau i gael gwared arnynt neu sicrhau cyn lleied â phosibl ohonynt	Parhaus	Perchnogion polisi/Rheolwyr yr Amgueddfa/Pennaeth Rhaglennu a Chyflwyno	Bydd mwy o bobl anabl yn cymryd rhan yn y celfyddydau
Byddwn yn sicrhau bod treftadaeth, cyfraniad a hanes pobl anabl yn cael eu cynnwys yn ein rhaglenni yn y dyfodol	Cynhelir ymchwil i sicrhau bod diwylliant, treftadaeth a hanes pobl anabl yn cael eu cynrychioli yn ein rhaglenni. Ymgynghori â phobl anabl a'u grwpiau cynrychiadol.	Parhaus	Pennaethiaid Adrannau Curadurol	Bydd profiadau pobl anabl ar hyd yr oesoedd a'n diwylliant yn cael eu hadlewyrchu yn ein rhaglenni.

Amcanion o'r Cynllun Gweithredol[†]

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Maes Blaenoriaeth Un				
Ymgynghori a chynnwys pobl anabl wrth gynllunio a datblygu prosiectau gan gynnwys ailddatblygu'r oriel yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a datblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	Proses ymgynghori ar brosiect yn cynnwys pobl anabl	Uchel	Rheolwyr Prosiect/Rheolwyr yr Amgueddfa	Prosiectau'n ystyried barn pobl anabl ac yn hygyrch i bawb yn gorfforol ac yn ddeallusol.
Maes Blaenoriaeth Dau				
Ychwanegu at y casgliadau mewn ffordd sy'n berthnasol i anghenion yr oes hon a'r dyfodol	Cydweithredu â rhanddeiliaid a grwpiau ymwelwyr perthnasol gan gynnwys ymwelwyr anabl a'u grwpiau cynrychiadol	Uchel	Pennaeth Casgliadau / Penaethiaid Adrannau Curadurol	Sicrhau bod y casgliadau yn ystyrlon i bobloedd a diwylliant amrywiol Cymru gan gynnwys pobl anabl.
Gwneud gwelliannau ffisegol yn ein hamgueddfeydd	Cynnal Archwiliadau Mynediad lle bo angen a chynnwys unrhyw argymhellion yng Nghynllun Gweithredu'r Adran Adeiladau.	Parhaus	Rheolwyr yr Amgueddfa/Pennaeth Adeiladau	Ymwelwyr yn cael profiad o'r casgliadau mewn amgylcheddau hygyrch, diogel sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda
Maes Blaenoriaeth Tri				
Dysgu gan ein hymwelwyr i sicrhau y gall pawb ddefnyddio a mwynhau'n casgliadau.	Ymgysylltu ag ymwelwyr anabl i weld beth yw eu hanghenion a sicrhau eu bod yn cael eu diwallu.	Parhaus	Pennaeth Addysg	Gellir defnyddio'r casgliadau i gyfoethogi a gwneud profiadau dysgu sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol ein holl ymwelwyr yn bleserus.
Adolygu'r ddarpariaeth cyfieithu i iaith arwyddion mewn digwyddiadau a chynllunio arddangosfa yn trafod iaith Arwyddion Prydain a'r gymuned Fyddar ar gyfer Oriel 1	Cynnwys y gymuned Fyddar a'u grwpiau cynrychiadol wrth gynllunio'r arddangosfa ac wrth weld beth yw eu hanghenion ar gyfer teithiau iaith Arwyddion Prydain.	Parhaus	Pennaeth Hanes Cymdeithasol a Diwyllianol/Rheolwyr yr Amgueddfa /Swyddog Amrywiaeth	Bydd yr arddangosfa yn Oriel 1 yn codi ymwybyddiaeth o'r gymuned Fyddar ac iaith Arwyddion Prydain fel iaith leiafrifol.

[†] O'r Cynllun Gweithredol 2008/09

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
				Bydd teithiau Iaith Arwyddion Prydain yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yn ein rhaglen ddigwyddiadau ac yn cael eu marchnata i'r Gymuned Fyddar.
Defnyddio technolegau newydd i greu 'Amgueddfa Rithwir Cymru'	Sicrhau bod ein gwefan a 'Rhagor', ein hadnodd casgliadau ar-lein yn hygyrch i bob ymwelydd. Gwneir hyn trwy gynnwys defnyddwyr anabl wrth ddylunio a phrofi'r adnoddau hyn.	Uchel	Pennaeth Cyhoeddiadau	Mae 'Amgueddfa Rithwir Cymru' ar gael yn lleol ac yn fyd-eang ac yn cynnig cyfle newydd i ddysgu mewn ffyrdd ac amgylcheddau amrywiol sy'n hygyrch i bawb.
Sicrhau bod ein rhaglenni ymchwil yn diwallu anghenion ein hymwelwyr a'n defnyddwyr yn ogystal â'r casgliadau	Ymgynghori gydag ymwelwyr i nodi amcanion dysgwyr a chynulleidfaoedd targed yn ein holl brosiectau	Uchel	Pennaeth Adrannau Curadurol	Creu Amgueddfa sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr sy'n hygyrch i bawb.
Maes Blaenoriaeth Pedwar				
Canfod ffyrdd o groesawu ac ymgysylltu gyda phobl gan ofyn sut allwn ni wneud ein digwyddiadau, arddangosfeydd a'r casgliadau cenedlaethol yn fwy perthnasol i amrywiaeth a ffyrdd o fyw yng Nghymru heddiw.	Datblygu ac asesu'r mecanweithiau ymgynghorol newydd sydd wedi'u sefydlu i gynnwys grwpiau rhanddeiliaid nad ydynt ar hyn o bryd wedi'u cynrychioli'n llawn yng ngwaith yr Amgueddfa, gan gynnwys pobl anabl. Recriwtio pobl nad ydynt yn ymweld i gymryd rhan mewn astudiaeth sydd â'r nod o fapio canfyddiad rhai nad ydynt yn ymwelwyr	Parhaus	Rheolwyr Prosiectau/Pennaeth Marchnata gyda cyngor gan y Cydlynnydd Ymgynghori â'r Cyhoedd	Mae arddangosfeydd a digwyddiadau'r Amgueddfa yn hygyrch a chynhwysol. Rhwystrau a ganfyddir a rhai gwirioneddol rhag defnyddio gwasanaethau'r Amgueddfa yn cael eu nodi a'u dileu.
Ymestyn allan a dysgu gan bartneriaid yng nghymunedau amrywiol Cymru	Sefydlu ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu gyda chymunedau anodd eu cyrraedd, gan gynnwys pobl anabl a grwpiau nad ydym wedi gweithio gyda nhw yn y gorffennol. Sefydlu partneriaethau newydd i lywio gwaith yr Amgueddfa.	Parhaus	Pennaeth Adnoddau Dynol/Pennaeth Addysg/Rheolwyr yr Amgueddfa	Mae cwrpas gwaith yr Amgueddfa yn cael ei gyfoethogi ac yn datblygu ar hyd llwybrau dysgu newydd.

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Datblygu ein hagenda ddysgu	Datblygu ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid i weld pa faterion y byddent yn hoffi gweld yn cael sylw yn ein rhaglenni a'n digwyddiadau.	Canolig	Pennaeth Addysg/Penaethiaid Adrannau Curadurol	Yr Amgueddfa'n cael ei hadnabod fel sefydliad lle cynhelir trafodaethau agored ar faterion cyfoes mewn amgylchedd cynhwysol heb ragfarn.

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
Maes Blaenoriaeth Pump				
Datblygu ein rhaglenni cyhoeddus i ysgogi dadl a thrafodaeth.	Defnyddio canlyniadau ein hymchwil a'r wybodaeth sy'n gynhenid yn ein casgliadau i ysgogi trafodaethau	Canolig	Pennaeth Rhaglennu /Penaethiaid Adrannau Curadurol	Bydd ein Hamgueddfeydd yn cael eu hadnabod fel canolfannau trafod ar faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd.
Darparu mwy o fynediad a chodi proffil lleol ynghylch casgliadau cenedlaethol	Cydweithio gyda sefydliadau partner i weld beth yw anghenion y grwpiau a gynrychiolant.	Uchel	Pennaeth Addysg/Penaethiaid Adrannau Curadurol	Bydd ein casgliadau yn cael eu harddangos a'u dehongli mewn amrywiaeth o gymunedau ym mhob cwr o Gymru.
Maes Blaenoriaeth Chwech				
Meithrin a chynnal dawn ac ymrwymiad yn ein staff, cynghorwyr a gwirfoddolwyr.	Sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gael i bawb, sicrhau bod unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer staff anabl yn cael eu cyflawni, gan sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi gweithwyr cyflogedig o grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n llawn.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae gan yr Amgueddfa ystod amrywiol o staff ar bob lefel o'r sefydliad. Mae canlyniadau Arolygon Staff yn dangos bod staff o bob cefndir yn teimlo bod eu hanghenion datblygu yn cael eu diwallu.
Datblygu Polisi Gwirfoddolwyr cynhwysol	Monitro gwirfoddolwyr presennol i nodi sectorau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn. Cynnal ymchwil i nodi beth sy'n rhwystro grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n llawn rhag gwirfoddoli. Targedu recriwtio ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli at grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n llawn.	Uchel	Pennaeth Adnoddau Dynol	Mae gwirfoddolwyr yr Amgueddfa yn cynrychioli'r cymunedau lle mae ein Hamgueddfeydd.
Maes Blaenoriaeth Saith				
Cydweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad, Cyrff eraill a Noddir	Defnyddio ein dylanwad i sicrhau bod cydraddoldeb i bobl anabl yn rhan annatod o'r	Parhaus	Cyfarwyddwr Gweithredu	Pobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru yn manteisio ar rai o'r

Gweithgaredd	Carreg Filltir	Blaenoriaeth	Cyfrifoldeb Arweiniol	Mesur llwyddiant
gan Lywodraeth y Cynulliad ac asiantaethau cyhoeddus i gefnogi a chyflawni strategaethau ym meysydd y celfyddydau, diwylliant, addysg a dysgu, yr amgylchedd a thwristiaeth	strategaethau hyn.			strategaethau hyn yn ogystal â chyfrannu at agendâu rhyngwladol yn y meysydd hyn.
Creu cymaint o incwm â phosibl o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar weithgareddau masnachol megis llogi ein Hamgueddfeydd yn gorfforaethol.	Bydd gwella hygyrchedd a marchnata ein cyflawniadau presennol o safbwynt hygyrchedd yn golygu y gallwn wneud y gorau o'n potensial yn y maes hwn.	Parhaus	Pennaeth Mentrau/Cydgysylltwyr Gweithgareddau'r Safleoedd/Pennaeth Marchnata	Creu mwy o incwm.